# Uwch Gynghorydd - Polisi a Phartneriaethau

## Gwybodaeth Allweddol

| | |
|---|---|
| **Yn Adrodd i'r** | Prif Weithredwr |
| **Cytundeb** | Llawn amser, cyfnod penodol tan 31 Gorffennaf 2026 (ystyrir rhannu swydd) |
| **Cyflog** | £53,000 (pro rata) |
| **Lleoliad** | Cyfuniad o weithio yn y swyddfa (Caerdydd) a gweithio gartref gydag o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos yn cael eu treulio yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. |
| **Dyddiad Cau** | Dydd Llun 5 Mai 2025 |

## Trosolwg o'r Rôl

Bydd y deunaw mis nesaf yn cael effaith fawr ar lunio dyfodol addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Bydd etholiadau ym mis Mai 2026 i Senedd fwy yn gweld deinameg newydd i wleidyddiaeth Cymru, tra bydd gwaith Medr, y rheoleiddiwr newydd ar gyfer y sector trydyddol, yn dechrau ail-lunio addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Mae'n hanfodol bod anghenion addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn cael eu mynegi'n glir yn ystod y cyfnod hwn. Ar adeg o ansicrwydd ynghylch gwariant cyhoeddus yn y dyfodol a newidiadau i'r amgylchedd polisi a rheoleiddio, mae angen inni sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed ar y lefelau uchaf oll.

Mae'r rôl newydd hon yn gontract tymor penodol tan 31 Gorffennaf 2026 a bydd yn canolbwyntio ar gefnogi ein hymgysylltiad gwleidyddol yn arwain at yr etholiadau ym mis Mai 2026 ac ar eu hôl, ac ar gefnogi gwaith ymgysylltu â Medr wrth iddynt ymgymryd â chyfres o newidiadau i'r ffordd y caiff y sector ôl-16 ei reoleiddio.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio'n uniongyrchol ac yn hyderus gydag uwch swyddogion y llywodraeth, Gweinidogion, pleidiau gwleidyddol, sefydliadau partner ac uwch arweinwyr yn y sector ei hun, yn ogystal â chynghori'r uwch dîm yn ColegauCymru ar sut i gyflawni strategaeth ymgysylltu effeithiol. Mae angen rhywun sydd â chefndir o wneud argraff gydag uwch wneuthurwyr penderfyniadau ac sydd â dealltwriaeth fanwl o wleidyddiaeth Cymru a'r gallu i feithrin perthnasoedd ar draws y pleidiau.

Mae'n hanfodol bod deiliad y swydd yn angerddol am y gwaith y mae colegau yn ei wneud a phwy sy'n deall yr effaith drawsnewidiol a gawn ar unigolion a chymunedau.

Mae'r rôl wedi'i chynllunio'n fwriadol i weithio ar draws y Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Tîm Datblygu Strategol. Er y bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, bydd yn hanfodol eu bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr Partneriaethau a Datblygiad Strategol.

## Prif Ddyletswyddau

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl fydd:

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus i helpu i ddatblygu a hyrwyddo safbwyntiau maniffesto ColegauCymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2026 a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw raglen lywodraethu yn y dyfodol.

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Partneriaethau a Datblygu Strategol i ddatblygu safbwynt sector cydgysylltiedig a chynhwysfawr ar gynigion gan Medr a rheoleiddwyr eraill, a helpu i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol trwy ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu perthnasol.

- Gweithio gyda Grwpiau Strategol ColegauCymru perthnasol i nodi rhaglen ar gyfer ymgysylltu allanol ynghylch y materion allweddol sy'n wynebu'r sector.

## Perthnasoedd Allweddol

Bydd angen i ddeiliad y swydd ffurfio perthynas waith effeithiol a chydweithredol gyda cholegau ac ystod o randdeiliaid allanol.

Bydd disgwyl hefyd i ddeiliad y swydd:

- Gweithio ar draws y tîm Polisi a Materion Cyhoeddus a'r tîm Partneriaethau a Datblygu Strategol i helpu i sicrhau golwg clir o waith sy'n mynd rhagddo yn y sector ac ymgysylltiad allanol ColegauCymru.

- Gweithio gyda chydweithwyr i gynnal a meithrin cysylltiadau â Llywodraeth Cymru a Medr.

- Datblygu perthnasoedd ag uwch arweinwyr yn y sector.

- Disgwylir i ddeiliad y swydd fod yn rhagweithiol yn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ei hun a dangos agwedd hyblyg fel y nodir yn y telerau ac amodau gwasanaeth.

## Manyleb Person

| |
|---|
| Y gallu i weithio'n adeiladol ac yn broffesiynol gydag uwch arweinwyr yn y sector, y llywodraeth, rheoleiddwyr a phleidiau gwleidyddol. |
| Dealltwriaeth dda o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector addysg bellach a'r gallu i gysylltu'r rhain â'r amgylchedd gwleidyddol a pholisi ehangach. |
| Y gallu i weithio dan bwysau, i reoli nifer o wahanol brosiectau a llifoedd gwaith ar yr un pryd ac weithiau i gwrdd â therfynau amser tynn. |
| Sgiliau rheoli rhanddeiliaid a dealltwriaeth o weithio mewn amgylchedd aelodaeth. |
| Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol. Mae gweithio fel rhan o dîm a'r gallu i weithio gyda sefydliadau partner yn hanfodol ar gyfer y rôl. |

## Gofynion yr Iaith Gymraeg

Mae ColegauCymru yn sefydliad dwyieithog balch ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried o fudd i'r sefydliad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog ac yn annog a chefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Byddai'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn fantais ac yn sgil dda i'w chael ar gyfer y rôl ond nid yw'n hanfodol. Beth bynnag fo lefel hyfedredd yn y Gymraeg rhoddir cymorth hefyd i ddatblygu eich sgiliau iaith ac i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â ColegauCymru i drafod y gofyniad hwn. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Proses Ymgeisio

Anfonwch lythyr eglurhaol a CV sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Disgrifiad Swydd.

**Dyddiad Cau**

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i HR@colegaucymru.ac.uk dim hwyrach na **5.00pm** ar **5 Mai 2025**.

**Cyfweliadau**

Cynhelir cyfweliadau ar **13 Mai 2025** neu **19 Mai 2025**, yn bersonol yn Nhongwynlais, Caerdydd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at HR@coleguacymru.ac.uk

**DBS Disclosure Check Gwiriad Datgeliad DBS**

Sylwch y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad DBS.